HYSBYSIAD O ETHOLIAD

Cyngor Tref Pontarddulais

ETHOLIAD CYNGHORYDD

Cymuned	Ward	Nifer y Cynghorwyr i'w hethol
Pontarddulais	Goppa	1

1. Rhaid i'r papurau enwebu ddod i law'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm, dydd Gwener 17 Ionawr 2025 fan bellaf.

2. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1 4PE rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflawni electronig isod.

3. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau yn swyddfeydd y cyngor ar gyfer Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE neu'n electronig drwy enwebiadau@abertawe.gov.uk o 9 Ionawr 2025 hyd at 4pm 17 Ionawr 2025.

4. Os bydd pleidleisio, cynhelir yr etholiad ar **Ddydd Iau 13 Chwefror 2025.**

5. Rhaid i geisiadau i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 ganol nos ar 28 Ionawr 2025. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

6. Rhaid i geisiadau am bleidleisiau drwy'r post, diwygiadau iddynt neu bleidleisiau drwy'r post a ganslwyd gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE erbyn 5pm ar 29 Ionawr 2025.

7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE erbyn 5pm ar 5 Chwefror 2025.

Rhaid i geisiadau i fwrw pleidlais frys drwy ddirprwy yn yr etholiad gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE erbyn 5pm ar 13 Chwefror 2025.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE

Datganiad cyflwyno electronig

Rhaid i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig gael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

Drwy e-bostio enwebiadau@abertawe.gov.uk

- Os ydych yn cyflwyno enwebiad ar gyfer gwiriad anffurfiol, defnyddiwch ‘GWIRIAD ANFFURFIOL’ yn y pennawd pwnc.
- Wrth gyflwyno'ch enwebiad i'w ystyried, defnyddiwch 'CYFLWYNO ENWEBIAD' yn y pennawd pwnc.
- Rhaid cyflwyno'ch papur enwebu fel atodiad, PDF neu ddogfen Word fyddai orau.
- Byddwch yn derbyn ateb awtomataidd pan fydd eich enwebiad wedi'i anfon.

Sylwer:

Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y terfynau amser gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig o brawf bod cais wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i hysbysu ymgeiswyr o'u penderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch i ddosbarthu enwebiadau yn electronig, ffoniwch y Gwasanaethau Etholiadol ar 01792 636123 neu e-bostiwch etholiadau@abertawe.gov.uk

Dyddiedig: 9 Ionawr 2025
Swyddog Canlyniadau: Martin Nicholls